

MAREDUDD ab OWAIN ab EDWIN (bu farw 1072), brenin Deheubarth

Enw: Maredudd ab Owain ab Edwin

Dyddiad marw: 1072

Plentyn: Gruffudd ap Maredudd

Rhyw: Gwryw

Galwedigaeth: brenin Deheubarth

Maes gweithgaredd: Milwrol; Gwleidyddiaeth a Mudiadau Gwleidyddol; Teuluoedd Brenhinol a Bonheddig

Awdur: Thomas Jones Pierce

Perthynai i'r bumed genhedlaeth ar ôl [Hywel Dda](#) ac yr oedd yn gyfyrdwr, yn y llinach hynaf, i [Rys ap Tewdwr](#). Pan gwmpodd [Gruffudd ap Llywelyn](#) yn 1063, adferwyd yr hen frenhiniaeth o dan ei arweiniad ef. Yr oedd cyfnod ei deyrnasiad yn cydreddeg â thrawiad cyntaf y goncwest Normanaidd ar Ddeheudir Cymru. Wedi ymdrech fer ac unochrog, cydymddug â choncwest tiroedd y goror yng Ngwent a gwobrwywyd ef â thiroedd yn Lloegr; yn 1070 y bu hyn. Ddwy flynedd wedi hynny lladdwyd ef gan gyd-dywysog wrth ymladd ar lannau afon Rhymni. Gadawodd un mab, Gruffudd, a fu'n byw'n alltud ar diroedd Seisnig ei dad hyd nes y lladdwyd ef wrth iddo geisio adennill ei dreftadaeth oddi ar law [Rhys ap Tewdwr](#).

Awdur

Yr Athro Thomas Jones Pierce, (1905 - 1964)

Ffynonellau

J. E. Lloyd, *A History of Wales from the Earliest Times to the Edwardian Conquest* (London 1911), Cyf. I

J. E. Lloyd, *A History of Wales from the Earliest Times to the Edwardian Conquest* (London 1911), Cyf. II

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: [Maredudd ab Owain ab Edwin](#)

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q2253200](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

